COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 4 MAWRTH 2020, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PJ White – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| NA Burnett | N Clarke | HJ David | DK Edwards |
| T Giffard | CA Green | D Patel | CE Smith |
| HM Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MC Clarke, J Gebbie, RM James, DBF White a/ac RE Young

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp Gwaith Integredig a Chymorth i Deuluoedd |
| Iain McMillan | Rheolwr Grŵp - Rheoli Achos a Throsglwyddo |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |

208. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim

209. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 4 Medi 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

210. STRATEGAETH LLEIHAU NIFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL A STRATEGAETH Y BWRDD DIOGELU A CHYMORTH CYNNAR

Cyflwynodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith Grŵp Technegol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd yr adroddiad i Rianta Corfforaethol ar 29 Mai 2019, ac yr oedd yn nodi'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Lleol ers y dyddiad hwnnw o ran gweithredu ei strategaeth i leihau'r nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC).

Rhoddodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant gefndir i'r cynnydd a wnaed yn ogystal â'r drafft o gynllun gweithredu newydd a fyddai'n ailffocysu ar weithgarwch y gyfarwyddiaeth drawsbynciol. Amlinellodd Strategaeth Ddisgwyliadau Lleihau'r Nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal, yn ogystal â lansiad y Grŵp Monitro Sefydlogrwydd, a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cymorth a Diogelu Cynnar yn fuan.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon bod cynnydd yn cael ei wneud, ond nododd y bu cynnydd bach yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y 12 mis diwethaf, a holodd a allai hyn fod yn arwydd o duedd gyffredinol. Gofynnodd hefyd am effaith y swyddi

Gweithwyr Cymorth Ailuno o fewn y Gwasanaeth Maethu yn ogystal â phecyn cymorth ailuno'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC). Eglurodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y bu problem gyda nifer fach o blant oedd ag anghenion cymhleth, ond ni fu cynnydd sydyn ac nid dyma'r cyfeiriad y byddent yn ei ddilyn. Roedd hi'n cydnabod i'r niferoedd gael eu heffeithio gan grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd. O ran y swyddi Gweithwyr Cymorth Ailuno, roedd dau berson eisoes yn eu swyddi ac wedi'u hyfforddi, a chanddynt garfan o achosion wedi'u nodi ar eu cyfer. Roedd y ddwy swydd arall wedi'u hail hysbysebu ac roeddent yn hyderus y byddent yn penodi'n fuan. Yr allwedd i becyn cymorth yr NSPCC oedd asesu ac roedd y broses ar waith yn un briodol.

Gofynnodd aelod a oedd unrhyw welliant o ran recriwtio gofal maeth o dan Gwm Taf. Y cyngor a roddwyd iddi oedd bod recriwtio'n symud i'r cyfeiriad cywir. Eglurodd Rheolwr y Grŵp Gweithio Integredig a Chymorth i Deuluoedd fod gweithio gyda Chwm Taf yn gadarnhaol iawn. Bellach, roedd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (a arferai fod o dan fesurau arbennig) weithiwr iechyd penodol, a gallai ddefnyddio swm sylweddol o arian ychwanegol yn gysylltiedig â'r ICF. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod Cwm Taf, o safbwynt y gwasanaethau i blant, wedi bod yn gadarnhaol iawn, a chanddynt gysylltiadau cryf a phrosesau llywodraethu sefydledig wrth gydweithio.

Gofynnodd aelod a oedd yr awdurdod yn ymgysylltu â'r byd academaidd. Ychwanegodd y gallai Brifysgol Caerdydd rannu llawer iawn o wybodaeth o ran y maes hwn. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw waith ar lefel leol ond fod cysylltiadau wedi bod â'r prifysgolion drwy grwpiau cynghori a ffrydiau gwaith. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y bu trafodaethau'n ddiweddar ynglŷn â'r ffordd orau o fanteisio ar y wybodaeth hon. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymweld â phob un o'r 22 awdurdod yn ddiweddar i drafod plant sy'n derbyn gofal. Cyflwynwyd adroddiad gwybodaeth ganddynt i Grŵp Cynghori'r Gweinidog, ag ynddo nifer o argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer ymchwil bellach a nodi arfer gorau. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd at waith gyda Heddlu De Cymru i ymyrryd yn gynharach o ganlyniad i ymchwil, yn ogystal â gwaith gyda Phrifysgol De Cymru o ran teuluoedd a oedd eisoes â phlant wedi'u cymryd oddi arnynt. Dywedodd yr Arweinydd fod Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd a'u bod wedi cynnig darparu ymchwil pe bai angen.

Gofynnodd aelod a oedd unrhyw ardaloedd penodol yn y fwrdeistref wedi'u hadnabod a'u targedu fel rhai lle ceir problemau yn aml. Atebodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant nad oedd unrhyw fannau penodol lle ceir problemau cyson, a bod y plant sy'n derbyn gofal wedi'u gwasgaru ar draws y tri thîm yn y fwrdeistref. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mai themâu sydd i'w gweld yn hytrach nac ardaloedd daearyddol, ac y byddai dogfen gryno yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod nesaf i drafod hyn ymhellach. Byddai dadansoddiad hefyd o'r plant sy'n derbyn gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys astudiaethau achos.

Gofynnodd aelod am symud Plant sy'n Derbyn Gofal i Orchmynion Gwarcheidwaeth. Holodd am y meini prawf ar gyfer hyn, holodd faint o amser y byddai'n ei gymryd, a pham nad oedd wedi cael ei ystyried o'r blaen. Rhoddodd Rheolwr y Grŵp – Rheoli Achosion a Phontio eglurhad o'r broses ac ychwanegodd fod nifer o resymau pam na fyddai gorchymyn o'r fath wastad yn briodol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at leoliadau y tu allan i'r sir a thu allan i'r wlad, a gofynnodd a oedd ffordd o sicrhau bod plentyn yn aros mewn lleoliad os mai dyna'r lle gorau i'r plentyn hwnnw. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai'n ddefnyddiol i edrych ar y boblogaeth o Blant sy'n Derbyn Gofal o fewn

grwpiau gwahanol, megis grwpiau oedran, rhesymau, a chategorïau. Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod 87 o blant wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdod lleol ond o fewn Cymru, a bod 7 o blant yn Lloegr, ond fod dros hanner y rheini gyda pherthnasau iddyn nhw a'u bod yn y lle iawn.

Darparodd Rheolwr y Grŵp – Rheoli Achosion a Phontio wybodaeth bellach am y trefniadau rhwng gwarcheidwaid, rhieni a phlant, cynlluniau cymorth, a gofalwyr sy'n berthnasau. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gofalwyr sy'n berthnasau yn ofalwyr maeth cofrestredig a chanddynt weithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo ar eu cyfer. Cawsant adolygiad blynyddol ar gyfer cymwyseddau craidd ac roedd hon yn broses gadarn.

Gofynnodd aelod a oedd yr awdurdod wedi elwa o gyflwyno'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Eglurodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod y dull rhanbarthol o weithredu o fudd, a bod plant yn cael eu lleoli yn gyflymach. Roedd prinder o rai i fabwysiadu o hyd ond mae'r sefyllfa'n gwella o ran hynny.

Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i gasgliad trwy ddweud y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth Meddwl am y Babi. Roedd 87% o fabanod a gafodd gymorth yn ystod 2018-19 gan dîm Meddwl am y Baban wedi cael eu hatal rhag dechrau derbyn gofal. Eglurodd Rheolwr y Grŵp, Gweithio Integredig a Chymorth i Deuluoedd fod yr awdurdod wedi cyrraedd rownd derfynol i dderbyn gwobr yn sgil y gwaith hwn.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i'r tîm a'r swyddogion am eu dull "un cyngor".

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ddiweddariad i'r Pwyllgor ar ôl iddyn nhw fynychu Cynhadledd y Grŵp Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol. Eglurodd y ddau y dylen nhw ailedrych ar eu rôl yn sgil y cynnydd parhaus mewn proffil, a hynny er mwyn gwella canlyniadau yn y tymor hir. Gellid ystyried:

- term gwell na "Phlant sy'n Derbyn Gofal"
- ymgysylltu mwy â phlant a oedd wedi derbyn gofal
- gwahodd cynrychiolwyr o faes Iechyd a'r Heddlu
- ystyried lleoliadau amgen
- gwahodd plant a aeth ymlaen i'r Brifysgol ar ôl derbyn gofal
- gwahodd teuluoedd maeth
- cyflwyniadau i'r Cyngor Llawn
- darparu amgylchedd lle gallai partïon siarad yn anffurfiol
- croesawu profiadau bywyd go iawn
- gwahodd cynrychiolwyr Penaethiaid Ysgolion, cynrychiolwyr o'r trydydd sector, a'r gwasanaeth eiriolaeth
- ystyried dylanwadu ar y cynlluniau Polisi Derbyn i Ysgolion a Phrentisiaeth

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i ymchwilio i'r rhain ac i'r awgrymiadau eraill cyn adrodd yn ôl.

211. EITEMAU BRYS

Dim

212. DIOCH I'R CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES S

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor mai hwn oedd cyfarfod Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol diwethaf y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, ac y byddai’n gadael cyn bo hir. Diolchodd iddi am y profiad, y cyngor a'r arweiniad a roddwyd ganddi ac, ynghyd â'r Cadeirydd, yr Aelodau a'r Swyddogion, diolchodd iddi am ei chefnogaeth ac am gadw'r awdurdod yn ddiogel.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i’r swyddogion a'r Pwyllgor am eu dymuniadau cynnes ac atebodd ei bod wedi bod yn fraint ac iddi fod wrth ei bodd â'i swydd. Roedd hi wastad wedi teimlo fod ganddi gefnogaeth, ac roedd hi'n gwerthfawrogi'r berthynas barchus a heriol â’r Aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40